Prif noddwr:



# Gweithredoedd i newid y byd

## Newid dy siwrne, newid y byd

## Amcanion

Dysgu sut mae'r camau a gymerir gan unigolion yn cael effaith ar y byd ehangach.

Dysgu am y Nodau Datblygu Cynaliadwy a sut gall teithio llesol helpu i'w cyflawni.

## Cynllun sesiwn

Dangoswch y fideo hwn i'r disgyblion i'w cyflwyno i'r Cenhedloedd Unedig a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

**www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zn73vwx/articles/zjmm7yc**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Argraffwch a thorrwch yr amrywiol Nodau Datblygu Cynaliadwy gan y Cenhedloedd Unedig allan a rhowch set i bob grŵp. Fel arall, gallech eu rhoi i fyny ar y bwrdd gwyn a chael trafodaeth ryngweithiol.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod yn eu grwpiau a chymryd tro i ddewis un o'r nodau ac egluro sut gallai teithio llesol helpu i'w gyflawni. Er enghraifft, mae teithio llesol yn helpu i wella iechyd a llesiant pobl = NDC 3.

## Estyniad

### Disgrifiad o'r estyniad

Anogwch y disgyblion i gymryd yr hyn y maent wedi'i ddysgu am deithio llesol a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac ysgrifennu araith i'r Prif Weinidog i bwysleisio pwysigrwydd cerdded, olwyno, sgwtera a beicio. Os bydd angen, caiff disgyblion wneud y gweithgaredd hwn mewn parau.

### Gweithgaredd estynnol

Dychmygwch fod cyfle ichi siarad gyda'r Prif Weinidog am sut gall teithio llesol helpu i gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Beth fyddech chi'n ei ddweud?

Rhowch gynnig ar ysgrifennu araith neu lythyr.

### Amser

30–40 munud

### Adnoddau angenrheidiol

Nodau datblygu cynaliadwy (gweler isod)

Siswrn (dewisol)

Papur a phin ysgrifennu (gweithgaredd estynedig)

### Gweithgaredd unigol/grŵp

Y ddau

### Meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru

– Dyniaethau
– Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban). © Sustrans 2024

# SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

